**Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Coedpenmaen**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | Dydd Llun 4 Tachwedd 2024 |
| **Amser** | 14:00 |
| **Math** | Wyneb yn wyneb |

| **Presenoldeb** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl** |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Laura Thomas | LT | Swyddog Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Rob Griffiths | BG | Pennaeth Dros Dro Ysgol Gynradd Coedpenmaen |
| Mrs C Walters | CW | Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd Coedpenmaen |
| Dd/B | Dd/B | Cyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Coedpenmaen |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Cyflwynodd y swyddogion a oedd yn bresennol eu hunain i'r Cyngor Ysgol a diolchwyd iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cyflwynodd aelodau'r Cyngor Ysgol eu hunain. Roedd holl aelodau'r Cyngor Ysgol a oedd yn bresennol yn ddisgyblion blwyddyn dau.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd LH drosolwg cryno o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn i'r Cyngor Ysgol, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

3. **Cwestiynau'r Cyngor Ysgol**

   Gwahoddwyd Cyngor Ysgol Gynradd Coedpenmaen i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Mae'r cwestiynau a'r sylwadau a wnaed wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn ynghyd â'u hymateb, lle bo angen.

| **Rhif** | **Cwestiynau** | **Ymateb** |
|---|---|---|
| 1. | A fyddai Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn cael mwy o arian i brynu offer newydd pe bai Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn cau a disgyblion yn symud? | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a disgyblion o Ysgol Babanod Trallwng yn symud i Ysgol Gynradd Coedpenmaen, efallai y bydd angen offer/cyfleusterau ychwanegol i weddu i grŵp oedran y disgyblion. Bydd asesiad llawn yn cael ei gwblhau cyn i unrhyw ddisgyblion symud i sicrhau bod y cyfleusterau'n addas ar gyfer pob disgybl. |
| 2. | Nid yw neuadd yr ysgol yma yn ddigon mawr ac mae'n gul iawn, a fyddai modd i Ysgol Gynradd Coedpenmaen | Mae gan bob adeilad ysgol gyfrifiad i weld faint o blant all ffitio mewn ysgol, mae hyn yn rhoi Nifer Derbyn |

| | | |
|---|---|---|
| | gael neuadd ysgol newydd pe bai Ysgol Babanod Trallwng yn cau a disgyblion yn symud? | Cyhoeddedig (PAN) i ni. Ar hyn o bryd, mae lle yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen ar gyfer disgyblion Ysgol Babanod Trallwng a byddai'r neuadd yn ddigonol ar gyfer y nifer derbyn. Pe bai unrhyw newid i'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig. |
| 3 | Sut bydd plant a rhieni/gwarcheidwaid yn gwybod ble i fynd pe bai Ysgol Babanod Trallwng yn cau a'r disgyblion yn symud i Ysgol Gynradd Coedpenmaen? | Bydd deilliannau'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu pan fydd y broses wedi'i chwblhau, fel bod rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion yn gwybod y deilliant.<br><br>Pe bai'r cynnig i gau Ysgol Babanod Trallwng yn mynd rhagddo, byddai modd i'r disgyblion ymweld ag Ysgol Gynradd Coedpenmaen cyn y cyfnod pontio.<br><br>Aeth y Cyngor Ysgol rhagddo i drafod syniadau amrywiol ar sut y gallen nhw wneud disgyblion Ysgol Babanod Trallwng yn llai pryderus am y broses bontio, gan gynnwys fideo croeso gyda thaith o amgylch Ysgol Gynradd Coedpenmaen, cwrdd â'r athrawon/aelodau o staff a chwrdd â'r Cyngor Ysgol. Hefyd, trafodwyd ymweliad ag Ysgol Babanod Trallwng i dawelu eu meddyliau i beidio ag ofni plant hŷn neu symud i ysgol wahanol, maen nhw yno i'w helpu a'u cefnogi. |
| 4. | Beth os bydd rhai plant yn dewis mynychu Ysgol Bro Taf, Ysgol Afon Wen neu Ysgol Awel Taf yn lle Ysgol Gynradd Coedpenmaen? | Fel gyda phob ysgol, bydd angen lle o fewn y Nifer Derbyn Cyhoeddedig i geisiadau fod yn llwyddiannus. Os oes lle mewn ysgol, mae modd gwneud ceisiadau i fynychu'r ysgol o ddewis y rhieni/gwarcheidwaid. |
| 5. | Os bydd Ysgol Babanod Trallwng yn cau, a fydd yr athrawon/aelodau o saff yn colli eu swyddi, neu a fydd modd iddyn nhw symud i Ysgol Gynradd Coedpenmaen? | Pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i gau Ysgol Babanod Trallwng, bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn cael ei argymell bod unrhyw swyddi ychwanegol a gaiff eu creu yn cael eu trafod gyda staff Ysgol Babanod Trallwng yn y lle cyntaf. Byddai hyn yn golygu y byddai aelodau o staff o Ysgol Babanod Trallwng yn cael y cyfle i wneud cais am swyddi, ac yn sicr o gael cyfweliad, cyn i unrhyw swyddi gael eu hysbysebu'n allanol. |
| 6. | Pryd byddwn ni'n gwybod os yw Ysgol Babanod Trallwng yn mynd i gau? | Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n dilyn rheolau Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (2018/11) ac yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhoi cyfle i ddisgyblion, aelodau o staff, rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned leisio'u barn ar y cynnig.<br><br>Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben am 5pm ddydd Gwener 15 Tachwedd, ar ôl y dyddiad yma bydd adroddiad yn cael ei anfon at Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) er mwyn iddo benderfynu cau neu beidio â chau Ysgol Babanod Trallwng, gan adleoli disgyblion i Ysgol Gynradd Coedpenmaen. Gobeithio caiff y penderfyniad yma ei wneud erbyn mis Ebrill 2025. |
| 7. | Beth fydd yn digwydd i adeilad Ysgol Babanod Trallwng os ydyn nhw'n cau'r ysgol, a ellid ei droi'n barc neu'n faes chwarae diogel? | Dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd yn digwydd i'r adeilad pe bai Ysgol Babanod Trallwng yn cau. Gyda holl adeiladau'r Cyngor nad oes eu hangen mwyach, gofynnir i'r gymuned a oes defnydd addas ar ei gyfer cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pellach. |
| 8. | A fydd amser cinio yn newid yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen er mwyn darparu ar gyfer y disgyblion ychwanegol o Ysgol Babanod Trallwng. Does dim digon o le i'r disgyblion gael cinio ar yr un pryd. | Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i gau Ysgol Babanod Trallwng, bydd asesiad yn cael ei wneud o'r adnoddau a'r cyfleusterau presennol. Os oes angen unrhyw adnoddau ychwanegol, eir i'r afael â hyn cyn i unrhyw ddisgyblion newydd symud. |
| 9. | Gwnaeth aelodau'r Cyngor Ysgol sylw eu bod yn teimlo y byddai'n well pe bai pob grŵp blwyddyn yn yr un ysgol. Byddai'n gwneud y broses bontio o flwyddyn dau i flwyddyn 3 yn haws, ni fyddai angen i ddisgyblion ddod i arfer ag ysgol newydd ac aelodau o staff newydd. Ychwanegodd aelodau'r Cyngor Ysgol eu bod wedi teimlo'n ofnus iawn wrth symud o Ysgol Babanod Trallwng, eu bod yn nerfus ac yn ofni na fydden nhw'n gwneud unrhyw ffrindiau newydd. | Wedi'i nodi. |
| 10. | Efallai y bydd rhai disgyblion yn drist pe bai Ysgol Babanod Trallwng yn cau, ond gallai disgyblion Ysgol Gynradd Coedpenmaen dawelu eu meddyliau gyda fideos ac ymweliadau i'w croesawu pe baen nhw'n dewis symud i Ysgol Gynradd Coedpenmaen. | Wedi'i nodi. |

## 4. Sylwadau i Gloi

Hysbyswyd Cyngor yr Ysgol y byddai cyfle dros yr wythnosau nesaf iddyn nhw fyfyrio ar y cwestiynau ac ymatebion a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Mae aelodau Cyngor yr Ysgol wedi cael eu hannog i gymryd rhan drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:40.